DIRPRWY FARNWR RHANBARTH

Disgrifiad Swydd

Darparwyd yr wybodaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Mehefin 2009

PWRPAS Y SWYDD

1. Pwrpas swydd farnwrol yw gweinyddu cyfiawnder yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr heb nac ofn na ffafr, a heb na hoffter na malais.

AWDURDODAETH

2. O dan Is-adran 1 Adran 8 Deddf Llysoedd Sirol 1984 ac Adran 102 Deddf y Goruchaf Lys 1981, caiff yr Arglwydd Ganghellor benodi rhywun yn ddirprwy farnwr rhanbarth o dan amgylchiadau lle mae'n ymddangos iddo ei bod yn ddoeth gwneud hynny er mwyn hwyluso cyflawni busnes yr Uchel Lys neu'r Llys Sirol.

3. Mae awdurdodaeth Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn debyg i awdurdodaeth Barnwr Rhanbarth (gweler nodyn yn Atodiad B isod ynglŷn ag Awdurdodaeth Barnwr Rhanbarth), ac eithrio'r awdurdodaeth mewn achosion teulu. Gweler nodyn ar wahân ynglŷn ag awdurdodaeth teulu Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Atodiad A). Nid yw awdurdodaeth pob llys sirol a phob Cofrestrfa Ddosbarth yn union yr un fath. Bydd pob llys sirol yn gweithredu awdurdodaeth gyffredinol y llysoedd sirol a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu'r awdurdodaeth teulu. Bydd rhai llysoedd sirol yn gweithredu awdurdodaeth ansolfedd a bydd Cofrestrfeydd Dosbarth yn gweithredu awdurdodaeth yr Uchel Lys.

PRIF WEITHGAREDDAU

4. Bydd Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn gweithredu'n gyhoeddus ac yn breifat, yn y llys neu yn ystafell y barnwr. Ymdrinnir â rhai ceisiadau ar bapur.

a) Paratoi ar gyfer treial a gwrando achosion

i) Darllen a dirnad papurau achos cyn i'r treial neu'r gwrandawiad ddechrau
ii) Rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r weithdrefn berthnasol) y ffordd y cynhelir achosion sifil gyda golwg ar:
- Ddyrannu achosion i'r trac hawliadau bychain, y trac cyflym neu'r aml-drac ac yn gyffredinol, rhoi'r pwerau rheoli achos ar waith a geir yn Rheolau'r Weithdrefn Sifil 1998.
- Sicrhau bod partïon, boed y rheini wedi'u cynrychioli ai peidio, yn gallu cael cyflwyno'u hachosion a chael eu hystyried mor llawn ac mor deg ag y bo modd;
- Hyrwyddo ym mhob achos y ffordd fwyaf hwylus o gwblhau'r busnes a hynny'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder;

iii) Cynnal awdurdod ac urddas y llys. (Yn ystafell y Barnwr, bydd y drefn fel rheol yn fwy anffurfiol; mewn gwrandawiadau hawliadau bychain, bydd Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn ysgwyddo rôl fwy uniongyrchol o ran cael y ffeithiau gan y partïon a gweld beth yw'r materion dan sylw.)

b) Ceisiadau yng nghwrs achos

i) Gwrando ceisiadau interim lle bo hynny'n briodol, gan sicrhau bod cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi i baratoi achosion ar gyfer treial neu wrandawiad hawliad bychan er mwyn canfod beth yw'r materion dan sylw rhwng y partïon a datgelu'r dogfennau perthnasol a thystiolaeth tystion.
ii) Gwrando ceisiadau ynglŷn â gorfodi dyfarniadau;

iii) Archwilio faint o gostau a hawlir gan bartïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol mewn achosion asesu manwl, neu gynnal asesiad cryno o'r costau lle bydd y rheolau'n caniatáu hynny;
iv) Rhoi ymwared interim lle bo hynny'n briodol.

c) Penderfynu ynglŷn â cheisiadau ar bapur

i) Bydd cyfran sylweddol o waith Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn cynnwys penderfynu ynglŷn â cheisiadau (gan gynnwys ceisiadau am orchmynion cydsynio, ceisiadau am orfodi dyfarniadau, ceisiadau am gyfarwyddiadau gweithdrefn arbennig mewn ceisiadau ysgaru sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer plant) ac asesiad manwl o'r costau wrth ystyried y papurau a thrwy gymhwyso'r gyfraith i ffeithiau'r achos.

d) Dyfarnu

i) Penderfynu ynglŷn â hawliadau drwy ganfod y ffeithiau, rhoi'r gyfraith berthnasol ar waith yng nghyswllt y ffeithiau hynny a rhoi dyfarniad sy'n seiliedig ar reswm;
ii) Penderfynu ynglŷn â cheisiadau a wrthwynebir a materion eraill drwy ystyried y papurau a'r dystiolaeth a gyflwynir mewn unrhyw wrandawiad a chanfod y ffeithiau, rhoi'r gyfraith berthnasol ar waith, a lle bo hynny'n briodol, rhoi dyfarniad sy'n seiliedig ar reswm;
iii) Asesu a dyfarnu iawndaliadau a chostau, a phenderfynu ynglŷn â swm y taliad a sut y'i telir.
iv) Gwneud gorchmynion ynglŷn ag eiddo a chynhaliaeth, rhoi ymwared gwaharddol a gwneud gorchmynion meddiannu.

CYFRIFOLDEBAU ERAILL

a) Gwybod am ddatblygiadau cyfreithiol

i) Mae angen i Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth wybod am ddatblygiadau cyfreithiol. Mae hyn yn golygu cryn waith darllen nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r achosion y maent yn eu treialu.
ii) Rhaid i Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth fynd ar gwrs cynefino preswyl y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (5 niwrnod) ac eistedd yn y llys gyda Barnwyr Rhanbarth profiadol am 5 niwrnod cyn y rhoddir yr hawl iddynt eistedd.
iii) Un o amodau parhau â'r penodiad yw bod gofyn i Ddirprwy Farnwyr Rhanbarth fynd i seminarau gloywi a pharhau o bryd i'w gilydd.

b) Dyletswyddau barnwrol eraill

i) Defnyddio TG yn effeithiol.

ATODIAD A

AWDURDODAETH DIRPRWY FARNWR RHANBARTH SY'N YMWNEUD Â GWAITH TEULU

O ran achosion teulu, llywodraethir dyrannu achosion i ddirprwy farnwyr rhanbarth y llys sirol gan gyfarwyddiadau a roddir gan Lywydd yr Adran Teulu o dan adran 9 Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990. Y Cyfarwyddiadau sy'n berthnasol ar hyn o bryd yw Cyfarwyddiadau Achosion Teulu (Dyrannu i'r Farnwriaeth) 2009. Mae'r ddolen berthnasol wedi'i rhestru o dan 'Cyfarwyddiadau Ymarfer Diweddar' dyddiedig 11 Chwefror 2009 a gellir ei gweld yn: **http/www.judiciary.gov.uk/judgment_directions/index.htm**

Dyrennir achosion teulu i farnwyr os bydd y Llywydd yn eu henwebu (tocynnu) i wrando categorïau penodol o achosion cyfraith teulu. Gall barnwyr gael eu henwebu i wrando achosion cyfraith teulu cyhoeddus neu achosion cyfraith teulu preifat.

Ar hyn o bryd, nid oes yr un Dirprwy Farnwr Rhanbarth (ac eithrio rhai sydd wedi dal swydd farnwrol barhaol yn y gorffennol) wedi'i benodi'n benodol ar gyfer achosion cyfraith teulu cyhoeddus na phreifat at ddibenion cyfarwyddiadau 2009. Yn unol â hynny, dim ond ag achosion teulu sy'n dod o dan y categorïau canlynol y caiff Dirprwy Farnwr Rhanbarth ymdrin â hwy'n gyffredinol

1. Achosion lle ceisir gorchymyn o dan adran 8 Deddf Plant 1989 mewn gwrandawiad heb rybudd
    - Lle nad oes barnwr enwebedig ar gael i wrando'r achos; a
    - Lle rhoddir terfyn amser ar unrhyw orchymyn nes y cynhelir gwrandawiad gerbron barnwr enwebedig;

2. Achosion o dan Adran 15 ac Atodlen 1 Deddf Plant 1989

3. Achosion o dan Ran IV Deddf Cyfraith Teulu 1996, ac eithrio gorfodaeth

4. Achosion teulu nad oes darpariaeth benodol wedi'i gwneud ar eu cyfer yn yr atodlen i Gyfarwyddiadau 2009. (achosion Lliniariad Ategol yn bennaf).

ATODIAD B:

NODYN YNGLŶN AG AWDURDODAETH BARNWR RHANBARTH

Awdurdodaeth y Llys Sirol

Mae awdurdodaeth y llys sirol yn gwbl statudol ac mae'n ymwneud â holl faes cyfraith sifil a chyfraith teulu fwy neu lai. Mae awdurdodaeth gyffredinol cyfraith sifil yn cydredeg ar y cyfan ag awdurdodaeth yr Uchel Lys.

Mae nifer o statudau'n rhoi awdurdodaeth unigryw i'r llysoedd sirol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd gwaith pwysig y llysoedd sirol, er enghraifft, bron pob achos o dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr, achosion gan fenthycwyr morgeisi i geisio meddiant ac achosion gan landlordiaid o dan Ddeddfau Rhenti a Deddfai Tai 1985, 1988 a 1996.

Ers 1 Gorffennaf 1991, mae'r awdurdodaeth gydredol wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil gorchmynion o dan Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990. Mewn achosion cyfraith gyffredin (camwedd yn ei hanfod, gan gynnwys anafiadau personol, dyled a mathau eraill o dorcontract) nid oes terfyn ariannol ar awdurdodaeth y llysoedd sirol. Mae mwyafrif helaeth yr achosion, y tu allan i'r rheini sy'n ymwneud â'r awdurdodaethau arbenigol, erbyn hyn yn cael eu cychwyn a'u penderfynu yn y llysoedd sirol.

Mewn achosion sy'n ymwneud ag ecwiti, y terfyn ariannol ar hyn o bryd yw £30,000. Ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, dygir pob achos meddiant sy'n ymwneud ag eiddo preswyl yn y llys sirol a Barnwyr Rhanbarth sy'n gwrando'r rhain i gyd fwy neu lai. Mae gan y llysoedd sirol awdurdodaeth ddiderfyn mewn ceisiadau o dan Ddeddf Etifeddu 1975, Adran 146 ac Adran 147 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 ac o dan Adran 13 Deddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996. Mae'r awdurdodaeth ar gyfer achosion y Ddeddf Cwmnïau yn ymwneud ag achosion lle mae cyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau taledig y cwmni'n llai na £120,000.

O ran cyfraith teulu, rhennir yr awdurdodaeth mewn modd tebyg naill ai drwy statud neu drwy gyfarwyddyd ymarfer. Mewn ambell achos, mae gan yr Uchel Lys awdurdodaeth unigryw, ond yn y rhan fwyaf o achosion teulu, mae gan y llysoedd sirol awdurdodaeth sy'n cydredeg ag awdurdodaeth yr Uchel Lys. Mewn ambell fater, er enghraifft achosion i ddiddymu priodas ac achosion gwahanu barnwrol, y llysoedd sirol sy'n gweithredu'r awdurdodaeth i gyd fwy neu lai.

Mewn achosion o dan Ddeddf Plant 1989, mae'r llysoedd sirol yn rhannu'r awdurdodaeth gyda'r Uchel Lys a'r Llys Achosion Teulu, ac mae'r gwaith yn cael ei wneud ar y lefel briodol yn unol â chyfarwyddiadau dyrannu. Yn y llysoedd sirol, lle bydd ceisiadau o'r fath yn cyfeirio at achosion cyfraith gyhoeddus megis gorchmynion gofal a goruchwylio, fe'u gwrandewir mewn Canolfannau Gofal gan Farnwyr Cylchdaith neu gan Farnwyr Rhanbarth a enwebir ar gyfer achosion cyfraith teulu gyhoeddus; fel rheol, bydd cyfarwyddiadau yn y materion hyn yn cael eu trafod gan Farnwyr Rhanbarth enwebedig.

Gwrandewir achosion mabwysiadu yn y llysoedd sirol mewn canolfannau mabwysiadu neu mewn canolfannau mabwysiadu rhyngwladol ac, fel rheol, Barnwyr Cylchdaith neu Farnwyr Rhanbarth a enwebir ar gyfer achosion cyfraith teulu gyhoeddus sy'n ymdrin â'r rhain.

Awdurdodaeth y Barnwr Rhanbarth

Mae'n hwylus ystyried hyn (at ddibenion y nodyn hwn yn unig) o dan bedwar prif bennawd sef: (a) awdurdodaeth gyffredinol y llysoedd sirol, (b) awdurdodaeth arbennig y llysoedd sirol, (c) awdurdodaeth teulu'r llys sirol a (d) awdurdodaeth yr Uchel Lys.

(a) Awdurdodaeth Gyffredinol y Llysoedd Sirol

Yn y llysoedd sirol, mae gan Farnwyr Rhanbarth awdurdodaeth sy'n cydredeg ag awdurdodaeth mainc y gylchdaith i dreialu achos a ddyrannwyd i'r trac cyflym (hawliadau

sy'n fwy na £5000 ond heb fod yn fwy na £25,000) Wrth dreialu achosion o'r fath, bydd ganddynt holl bwerau'r Llys, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwaharddebau a pherfformiad penodol, ond pwerau cyfyngedig yn unig a fydd ganddynt i ymdrin â dirmyg llys. Wrth asesu'r iawndaliadau, nid oes terfyn ar awdurdodaeth y Barnwr Rhanbarth. Daw mwyafrif helaeth gwrandawiadau hawliadau bychain gerbron Barnwyr Rhanbarth.

Gyda chaniatâd eu Barnwr Sifil Dynodedig, cânt hefyd dreialu achosion a ddyrannwyd i'r aml drac yn y llysoedd sirol.

Maent yn ymdrin â'r rhan fwyaf o agweddau ar reoli achosion a materion interim. Mae hyn yn cynnwys dyrannu achosion i'r Trac priodol.

Mae gofyn iddynt gwblhau achos yn y pen draw naill ai drwy roi dyfarniad yn y fan a'r lle, neu drwy wrthod datganiad o achos lle nad oes gwir debygrwydd y bydd yn llwyddo ac nad oes sail resymol dros fwrw ymlaen ag achos.

Mae ganddynt y pŵer i orchymyn taliadau interim ar gyfer iawndal a hawlir gan y naill barti yn erbyn y llall.

Bydd Barnwyr Rhanbarth yn gwrando'r rhan fwyaf o achosion ar gyfer meddiant a hefyd ar gyfer gwaharddebau ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig. Nid oes terfyn ar eu hawdurdodaeth dros unrhyw hawliad am arian a gynhwysir mewn achos meddiant. Bydd llawer o achosion meddiant yn cynnwys rhoi crebwyll barnwrol ar waith wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn meddiannu ac, os felly, ar ba delerau, os o gwbl, y dylid gohirio gorfodi'r gorchymyn. Ymdrinnir â nifer sylweddol o achosion meddiant cyflym drwy waith blwch, h.y. ar bapur. Bydd Barnwyr Rhanbarth hefyd yn ymdrin â cheisiadau am ohirio gwarantau meddiannu.

Mewn achosion a ddyrennir i'r trac hawliadau bychain, cyfyngir ar y costau y gellir eu dyfarnu ac anogir partïon i gynnal eu hachos hwy eu hunain. Bydd Barnwr Rhanbarth yn cynorthwyo ymgyfreithwyr ac yn defnyddio gweithdrefnau hyblyg ac anffurfiol.

O ran costau, bydd Barnwyr Rhanbarth yn rhoi holl bwerau Barnwr Costau'r Goruchaf Lys ar waith wrth benderfynu, heb derfyn ariannol, pa mor rhesymol yw'r symiau a hawlir am gostau mewn achosion lle gorchmynnir i'r naill barti dalu costau i'r llall yn y llysoedd sirol.

Mewn achosion sylweddol lle bydd parti'n cael nawdd cyhoeddus a lle hawlir mwy na £2500 o gostau, Barnwyr Rhanbarth yn y bôn yw'r unig rai a gaiff farnu'r swm priodol y mae gan y twrnai a'r bargyfreithiwr yr hawl i'w gael.

Wrth derfynu gwrandawiadau interim a threialon nad ydynt yn para fwy na diwrnod, bydd Barnwyr Rhanbarth yn cynnal asesiad cryno o'r costau.

Bydd ganddynt awdurdodaeth hefyd i bennu pa mor rhesymol yw'r costau a godir gan dwrnai ar y cleient yng nghyswllt y cyfreitha.

Byddant yn penderfynu ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r cwestiynau sy'n codi yn sgil gorfodi dyfarniadau'r llys sirol. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau a wrthwynebir i ohirio gwarantau meddiannu a gwarantau gweithredu; ceisiadau am orchmynion talu ac am werthu eiddo sy'n destun gorchymyn talu; ceisiadau am orchmynion dyled trydydd parti ac unrhyw orchmynion caledi cysylltiedig; gorchmynion atal enillion gan staff y llys, lle gwrthwynebir y gorchymyn a phob cais am orfodi taliadau cynhaliaeth drwy atal enillion ac agweddau penodol ar orchmynion i gael gwybodaeth gan ddyledwyr dyfarniadau.

Lle telir iawndal i blentyn neu i glaf, y Barnwyr Rhanbarth fydd yn gyfrifol am gymeradwyo telerau unrhyw setliad o'r achos. Byddant hefyd yn penderfynu sut mae buddsoddi'r arian neu sut mae ymdrin ag ef er budd y person hwnnw, er enghraifft drwy gymeradwyo telerau

ymddiriedolaeth breifat, drwy ddefnyddio'r gwahanol ffurfiau ar fuddsoddi sydd ar gael drwy Swyddfa Arian y Llys, neu drwy dalu'r arian ar unwaith.

Mae gan Farnwyr Rhanbarth y Pŵer i ddirwyo neu i ddedfrydu i garchar unrhyw un sy'n anufuddhau i orchmynion a wneir o dan Ddeddf Atal Enillion 1971, sy'n ymosod ar unrhyw un o swyddogion y Llys, neu unrhyw un sy'n camymddwyn yn fwriadol yn y Llys, ac i ddirwyo neu ddedfrydu i garchar unrhyw un sy'n gwrthod rhoi tystiolaeth i'r Llys.

Mae gan Farnwyr Rhanbarth y pŵer i wneud gorchmynion gwaharddol a'u gorfodi (boed hynny mewn achos interim neu mewn gwrandawiad llawn) naill ai o dan Adran 153A-D Deddf Tai 1996 neu Ran IV Deddf Cyfraith Teulu 1996, er na chaiff Dirprwy Farnwyr Rhanbarth ymdrin â gorfodi gorchmynion Rhan IV. O fewn eu terfynau ariannol, o dan y weithdrefn sifil arferol, caiff Barnwyr Rhanbarth wneud gorchmynion gwaharddol sifil. O dan Adran 3 Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997, caiff Barnwyr Rhanbarth ganiatáu iawndal a/neu waharddeb yn erbyn cwrs ymddygiad diffynnydd sy'n aflonyddu, ond ni chaiff wrando unrhyw gais dilynol am draddodi ar gyfer honiad o dorri gorchymyn o'r fath.

(b) Awdurdodaeth Arbennig y Llysoedd Sirol

Yn ogystal â'r awdurdodaeth gyffredinol, mae gan oddeutu 80% o'r llysoedd sirol awdurdodaeth ym maes ansolfedd ac mae'r Barnwyr Rhanbarth sy'n eistedd yn y llysoedd hyn yn rhoi holl bŵer Cofrestryddion Methdaliad yr Uchel Lys ar waith wrth ymdrin ag ansolfedd personol, gan gynnwys y pŵer i wneud Gorchmynion Cyfyngu mewn achosion Methdalu.

Mae gan Farnwyr Rhanbarth hefyd y pŵer i ymdrin â dirwyn cwmnïau i ben o fewn y terfyn a grybwyllwyd eisoes.

Mae'r pwerau hyn yn cynnwys y Pŵer i orchymyn arestio unigolion a swyddogion cwmni os na fyddant yn ufuddhau a'r pŵer i wahardd cyfarwyddwyr cwmni rhag bod yn gyfarwyddwr am hyd at ddeng mlynedd.

(c) Awdurdodaeth Teulu'r Llys Sirol

Roedd Deddf Plant 1989, a roddwyd ar waith ym mis Hydref 1991, yn rhoi cyfrifoldebau newydd i Farnwyr Rhanbarth mewn achosion teulu. Mae gan bob Barnwr Rhanbarth mewn llysoedd sirol a chanddynt awdurdodaeth dros ysgaru awdurdodaeth mewn materion teulu cyfraith breifat. Mae hyn yn cynnwys ysgaru (gweler isod) a rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer amrywiaeth o orchmynion (gorchmynion Adran 8) sy'n ymwneud â magu'r plentyn, ar ôl ysgaru ac mewn ceisiadau annibynnol. Cânt hefyd wneud gorchmynion Adran 8 sy'n ddiwrthwynebiad, ac mae ganddynt bŵer cyfyngedig i wneud gorchmynion interim ar gyfer preswyliaeth a chyswllt mewn achosion lle bydd gwrthwynebiad naill ai i'r breswyliaeth neu i egwyddor y cyswllt; neu cânt amrywio gorchymyn Adran 8 pan fydd gorchymyn cymorth teulu mewn grym. Byddant yn gosod yr amserlen ac yn rhoi rheolaeth y Llys ar waith dros geisiadau o'r fath.

Mae gan Farnwyr Rhanbarth Enwebedig ar gyfer Gofal awdurdodaeth eang mewn materion cyfraith gyhoeddus (ac eithrio gwrandawiadau terfynol); mae hyn yn cynnwys adolygu achosion lle bydd Llysoedd Achosion teulu wedi gwrthod trosglwyddo achos i'r llysoedd sirol neu i'r Uchel Lys; gwneud Gorchmynion Amddiffyn mewn Argyfwng ar gyfer plant mewn risg; a gwneud gorchmynion diwrthwynebiad ar gyfer gofal a goruchwyliaeth. Mae ganddynt bŵer i wneud gorchmynion gofal interim a gorchmynion goruchwylio.

Mae gan Farnwyr Rhanbarth Enwebedig ar gyfer Gofal awdurdodaeth lawn i wrando ceisiadau cyfraith breifat o dan Ddeddf Plant 1989, e.e. ceisiadau am breswyliaeth, neu gysylltiad â phlentyn, gorchmynion camau gwaharddedig, gorchmynion materion penodol a gorchmynion ar gyfer cyfrifoldeb rhiant, boed y rheini wedi'u gwrthwynebu neu beidio. Er 2002, mae nifer o Farnwyr Rhanbarth wedi cael eu tocynnu i roi'r un awdurdodaeth ar waith

o dan Ddeddf Plant cyfraith breifat 1989 â'r awdurdodaeth sydd gan Farnwyr Rhanbarth Enwebedig ar gyfer Gofal.

O dan y weithdrefn arbennig sy'n berthnasol i achosion ysgaru diwrthwynebiad, rhaid i farnwyr Rhanbarth ystyried y ddeiseb a'r affidafid sy'n gefn iddynt, penderfynu a ellir rhoi dyfarniad a'i gyhoeddi yn y llys agored. Rhaid iddynt hefyd ystyried y trefniadau ar gyfer unrhyw blant dan oed yn y teulu, naill ai drwy ystyried yr holl dystiolaeth ddogfennol ynglŷn â'r trefniadau neu drwy wrando ar y partïon mewn apwyntiad.

Nid oes cyfyngiad ar awdurdodaeth Barnwyr Rhanbarth i ymdrin â phob cwestiwn sy'n berthnasol i eiddo a chynnal cymar wrth ddisgwyl am ysgariad ac ar ôl yr ysgariad. Mae Deddf Achosion Priodasol 1973 yn rhoi'r disgresiwn ehangaf posibl i'r Llys addasu incwm a chyfalaf (gan gynnwys hawliau pensiwn) partïon mewn ysgariad Y Barnwr Rhanbarth sy'n penderfynu'n derfynol ynglŷn â cheisiadau am ddarpariaeth ariannol. Mae'r ceisiadau hyn yn rhan bwysig o'r gwaith a wnaiff Barnwyr Rhanbarth. Gall gwrandawiadau bara sawl diwrnod a gall gwerth yr eiddo sy'n destun yr anghydfod fod yn sylweddol.

Mewn ceisiadau ariannol, bydd gan Farnwyr Rhanbarth hefyd y pŵer i roi gwaharddebau sy'n atal partïon rhag cael gwared ar asedau priodasol ac i roi trafodion a wneir i atal hawliad am ymwared ariannol o'r neilltu.

O dan Ran IV Deddf Cyfraith Teulu 1996, bydd gan Farnwyr Rhanbarth y pŵer i wneud a gorfodi gorchmynion peidio â molestu i amddiffyn dioddefwyr trais yn y cartref, a gorchmynion anheddu lle mae eiddo (neu lle bu eiddo) yn gartref neu'n gartref a fwriedid i'r partïon. Gall gorchmynion anheddu gynnwys amrywiaeth o wahanol delerau, gan ddibynnu ar a oes gan y ceisydd a'r atebydd ill dau yr hawl i fyw yn yr eiddo o dan hawl sy'n bodoli eisoes i'r eiddo hwnnw, ac a ydynt yn ddau gymar (neu'n ddau gyn gymar) neu'n bobl sy'n cyd-fyw (neu a fu'n cyd-fyw).

Gall gorchmynion gynnwys datganiadau ynglŷn â hawliau anheddu'r ceisydd a gorchmynion bod yr atebydd yn ymadael â'r eiddo.

Bydd Barnwyr Rhanbarth yn gwrando hawliadau o dan Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 er mwyn penderfynu ynglŷn â buddiannau pobl a fu'n cyd-fyw mewn eiddo, ac o dan Ddeddf Etifeddu (Darpariaeth ar gyfer Teulu a Dibynyddion) 1975 ar gyfer darparu yng nghyswllt ystâd rhywun a fu farw.

(d) Awdurdodaeth yr Uchel Lys

Ac eithrio yn y materion hynny a gedwir yn benodol ar gyfer y llysoedd sirol neu ar gyfer Tribiwnlysoedd arbennig, nid oes cyfyngiad ar awdurdodaeth yr Uchel Lys ym mhob mater sifil. Ac eithrio ychydig iawn o faterion, ac anaml y bydd y rheini'n codi mewn gwirionedd, gellir cychwyn unrhyw achos yn yr Uchel Lys mewn Cofrestrfa Ddosbarth, gan fwrw ymlaen i'w dreialu naill ai yn Llundain neu yn un o'r canolfannau treialu eraill lle'r ymdrinnir ag achosion yr Uchel Lys.

Mae awdurdodaeth Barnwr Rhanbarth un o Gofrestrfeydd Dosbarth yr Uchel Lys mewn achos hawlio yn Adran Mainc y Frenhines yr un fath ag awdurdodaeth un o Feistri Mainc y Frenhines. Mae'r rhain yn cynnwys pob cais interim (ac eithrio'r rheini a gedwir ar gyfer un o farnwyr yr Uchel Lys sy'n ymwneud yn bennaf â gwaharddebau) megis ceisiadau am ddyfarniad diannod, dileu hawliadau neu ddatganiadau achos, rhoi dyfarniadau diffygdalu o'r neilltu, diwygio datganiadau achos, datgelu, cyfarwyddiadau rheoli achosion a gwrando asesiad ar gyfer iawndal.

Yn ogystal â hynny, mae ganddynt y pŵer i wrando ceisiadau am adnewyddu ffurflenni hawlio a cheisiadau am estyn y terfyn amser ar gyfer cychwyn achosion o dan y Ddeddf Cyfyngiadau Achosion.

Fel rhan o'u gwaith rheoli achosion, maent yn gyfrifol am adolygu'r achos er mwyn penderfynu a yw'n ddigon pwysig i aros yn yr Uchel Lys ynteu a ddylid ei drosglwyddo i lawr i'r llysoedd sirol.

Mae gan ambell Gofrestrfa Ddosbarth yn yr ardaloedd mwyaf poblog awdurdodaeth Siawnsri lawn a bydd Barnwyr Rhanbarth yn y canolfannau hyn yn rhoi holl bwerau Meistr Siawnsri yr Uchel Lys yn Llundain ar waith.

O ran costau, bydd Barnwyr Rhanbarth yn rhoi holl bwerau Barnwr Costau'r Goruchaf Lys ar waith ym mhob achos sy'n mynd rhagddo yn y Gofrestrfa Ddosbarth a thros unrhyw gostau a godir gan dwrnai ar ei gleient ei hun.

Pan ddaeth Deddf Plant 1989 i rym, lleihaodd yr awdurdodaeth dros wardiaeth yn sylweddol er ei bod ar gael o hyd mewn achosion priodol. Bydd Barnwyr Rhanbarth yn gwrando'r apwyntiad cyntaf, gan roi'r holl gyfarwyddiadau angenrheidiol er mwyn i'r achos fynd rhagddo i dreial, ac maent yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei dreialu heb unrhyw oedi diangen. Mae ganddynt hefyd y pŵer i ymdrin â gofal a rheolaeth interim mewn achosion o'r fath. Mewn argyfwng, cânt wneud gorchmynion sylweddol.

Mehefin 2009